Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

# Gwella gwasanaethau i’n cymunedau

## Canllaw i reoli perfformiad

Bwriad y llyfryn hwn yw eich helpu i ddeall sut mae’r Cyngor yn cynllunio ei waith. Mae’n offeryn i unrhyw un sy’n gweithio yn y Cyngor, yn ogystal â chanllaw i’r rhai sy’n derbyn ein gwasanaethau.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.  This document is available in English.

# Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

## Am fwy o wybodaeth ynglŷn ag unrhyw beth yn y llyfryn hwn

Mae croeso i chi gysylltu â'r Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad. Byddem yn hapus i roi unrhyw ganllawiau a deunyddiau ychwanegol i'ch helpu.

**Drwy e-bost:** timcynlluniostrategol@sirddinbych.gov.uk

**Dros y ffôn:** 01824 70 6291 (Dydd Llun i Ddydd Gwener 8:30am i 5pm). Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome telephone calls in Welsh.

**Ysgrifennwch atom ni:** Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad, Cyngor Sir Ddinbych, Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ.

# Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 4 |
| Pam bod perfformiad yn bwysig? | 5 |
| Ble mae'r data'n mynd, a sut rydym yn ei gofnodi? | 5 |
| Sut ydym yn herio ein gwasanaethau i wella? | 9 |
| Beth yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol? | 10 |
| Beth yw'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau? | 11 |
| Rhywbeth i bawb | 14 |
| Rydw i'n Aelod o'r Cyhoedd | 15 |
| Rydw i'n Aelod Etholedig | 17 |
| Rydw i'n Aelod Cabinet | 18 |
| Rydw i'n Aelod Craffu | 19 |
| Rydw i'n aelod Llywodraethu ac Archwilio | 20 |
| Rydw i'n aelod o staff | 21 |
| Rydw i'n Brif Weithredwr neu Gyfarwyddwr Corfforaethol | 22 |
| Rydw i'n Bennaeth Gwasanaeth | 23 |
| Rydw i'n Rheolwr | 25 |
| Rydw i'n Swyddog Perfformiad o fewn gwasanaeth | 27 |
| Rydw i'n Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad | 29 |
| Geirfa | 31 |

# Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

## Cyflwyniad

Y llyfryn hwn yw ein canllaw i Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor. Yn ei hanfod, dyma'r strwythur sy'n cynnal cynllunio ein gwaith. Mae rhai pethau cyffredin sy'n ddefnyddiol eu gwybod, ac fe'u hamlinellir yn nhudalennau cyntaf y ddogfen hon. Mae'r rhain yn cynnwys:


- Pam bod perfformiad yn bwysig?
- Ble mae'r data'n mynd, a sut rydym yn ei gofnodi?
- Sut ydym yn herio ein gwasanaethau i wella?
- Beth mae coch, oren, melyn a gwyrdd yn ei olygu i berfformiad?
- Beth yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?
- Beth yw'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau?


Argymhellir hefyd eich bod yn edrych ar yr adran sy'n dwyn y teitl 'Rhywbeth i bawb.' Ar ôl hynny, mae pennod ar gyfer pob rôl; ond peidiwch â chael eich cyfyngu gan hynny, weithiau mae'n ddiddorol gwybod beth mae pobl eraill yn ei wneud hefyd, p'un a ydych chi'n:

- **Aelod o'r cyhoedd**
- **Aelod etholedig**
  - Aelod Cabinet
  - Aelod Craffu
  - Aelod Llywodraethu ac Archwilio
- **Aelod o staff**
  - Y Prif Weithredwr neu Gyfarwyddwr Corfforaethol
  - Pennaeth Gwasanaeth
  - Rheolwr
  - Swyddog Perfformiad o fewn gwasanaeth
  - Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad

Ar y diwedd, mae Geirfa a allai fod yn ddefnyddiol i chi wrth ddefnyddio'r llyfryn hwn.

# Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

## Pam bod perfformiad yn bwysig?

Mae sôn o hyd am bwysigrwydd rheoli perfformiad. Ond mae'r pwyslais wedi tueddu i fod ar gael systemau monitro cadarn, sydd wedi arwain yn aml at brosesau cymhleth ac adroddiadau mawr. Mae hyn yn dychryn pobl, ac er bod systemau rheoli perfformiad da yn bwysig, does dim rhaid iddyn nhw fod yn faich.

Yr hyn sy'n bwysicach na'r systemau sydd ar waith yw'r egni a ddefnyddir wrth eu gweithredu. Mae ymgysylltu cryf drwy'r broses – cyfranogiad a chyfranogiad gweithredol a pharhaus gan ddefnyddwyr wrth ei ddatblygu a'i gynhyrchu – yn allweddol ar gyfer rheoli perfformiad da. Os caiff hyn ei wneud yn dda, yna gellir cadw'r monitro a'r adrodd yn syml, a chaniatáu mwy o sylw ar wella gwasanaethau i'n cwsmeriaid.

Mae'r penodau yn y canllaw hwn yn dangos yr amrywiaeth o rolau sydd ynghlwm â rheoli perfformiad. Gyda chynifer â hyn o bobl, mae angen gonestrwydd, ymddiriedaeth a dealltwriaeth. Mae hyn yn rhoi pwyslais ar y Cyngor fel sefydliad dysgu. Mae'n rhaid i ni fod yn glir am ein disgwyliadau perfformiad ac annog her gadarnhaol yn barhaus i hwyluso a chefnogi datblygiad staff a gwasanaethau. Fel hyn, gallwn sicrhau bod y sefydliad ei hun yn dysgu hefyd.

## Ble mae'r data'n mynd, a sut rydym yn ei gofnodi?

Mae nifer o ddogfennau allweddol sy'n arwain darpariaeth ein gwasanaethau yn Sir Ddinbych. Mae pob un yn perthyn i'w gilydd.

Rhoddir cyfeiriad i'n gwaith gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol, dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, am ddod â Chynllun Lles y rhanbarth at ei gilydd (gan ymateb i Nodau Lles Llywodraeth Cymru). Mae pob partner ar y Bwrdd yn cytuno ar hyn, ac mae'n deillio o ddadansoddiad helaeth o anghenion ac ymgysylltu â budd-ddeiliaid.

Yna, mae angen i gyrff cyhoeddus ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, sy'n cynnwys Cyngor Sir Ddinbych, ystyried sut y byddant yn gweithio tuag at y Cynllun Lles. Gelwir hwn yn Gynllun Corfforaethol. Yn ogystal â chynnwys ein cyfraniad at y Cynllun Lles, bydd hefyd yn cynnwys meysydd pwysig eraill o waith i'r Cyngor. Yn Sir Ddinbych, mae ein

## Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

Cynllun Corfforaethol hefyd yn cynnwys ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol. Unwaith eto, datblygir hwn ar ôl dadansoddiad helaeth o anghenion ac ymgysylltu â budd-ddeiliaid.

Cytunir ar y Cynllun Corfforaethol gan y Cyngor Sir ac mae'n cael ei fonitro drwy adroddiadau perfformiad rheolaidd (bob chwe mis o leiaf) i'r Cabinet, Craffu Perfformiad a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Cyflwynir ein hadroddiad diwedd blwyddyn i'r Cyngor Sir a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn dilyn pob blwyddyn ariannol. Mae trefniadau llywodraethu ar waith ar gyfer y Cynllun Corfforaethol i asesu ein cynnydd a'r risgiau a wynebwn wrth gyflawni. Mae'r Aelodau Cabinet Arweiniol yn gweithio gyda'r Tîm Gweithredol Corfforaethol i oruchwylio'r trefniadau hyn. Gellir rhoi byrddau rhaglenni ar waith os oes angen. Mae mwy o wybodaeth am ein trefniadau llywodraethu ar gael ar ein gwefan Cynllun Corfforaethol.

Mae Cynlluniau Gwasanaeth ar gyfer pob gwasanaeth yn y Cyngor yn dod o dan y Cynllun Corfforaethol. Mae'r rhain yn sicrhau bod gwasanaethau'n gweithio tuag at amcanion a blaenoriaethau lles y cytunwyd arnynt gan y Cyngor a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Dylid cynnwys staff ac aelodau etholedig yn natblygiad cynlluniau gwasanaeth er mwyn sicrhau ymrwymiad a pherchnogaeth. Cânt eu cymeradwyo gan yr Aelod Cabinet sydd â chyfrifoldeb a chânt eu monitro bob chwarter gan reolwyr gwasanaeth a'r Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad. Bydd craffu trylwyr ar berfformiad meysydd gwasanaeth unwaith y flwyddyn hefyd fel rhan o'r Rhaglen Herio Perfformiad Gwasanaeth.

Efallai y bydd gan wasanaethau mwy lefel o gynlluniau gweithredol hefyd ar gyfer timau unigol, ond dylai fod cyswllt bob amser rhwng amcanion staff a'r Cynllun Gwasanaeth er mwyn galluogi timau ac unigolion sy'n gweithio i'r Cyngor i ddeall yn glir beth maen nhw'n wneud i gyfrannu at y Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Lles.

Yn Sir Ddinbych rydym yn defnyddio system storio yn y cwmwl o'r enw Verto i'n helpu i reoli ein gwybodaeth perfformiad a phrosiectau.

Mae swyddogion mewn gwasanaethau yn helpu i gasglu a mewnbynnu data, gwybodaeth risg a phrosiect i mewn i Verto ar gyfer cynlluniau gwasanaeth. Dim ond unwaith y mae'n rhaid cyflwyno'r wybodaeth hon ac mae'n bwydo'n awtomatig i'r Cynllun Corfforaethol, y Cynllun Lles, y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol, a'r Gofrestr Prosiect Corfforaethol. Mae hyn

# Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

yn cadw'r gwaith adrodd yn syml, ac yn osgoi dyblygu. Mae gan wasanaethau fis ar ôl diwedd y chwarter i gyflwyno hyn.

Gweler isod amlinelliad o'r amserlen adrodd. Gall hyn newid yn dibynnu ar yr amserlen pwyllgorau.

| Mis | Cynllunio Ariannol | Cynllunio Gwasanaethau | Gwleidyddol |
|---|---|---|---|
| **Ebrill** | Amherthnasol | Cynlluniau Gwasanaeth yn dechrau<br><br>Diweddariadau cynllun gwasanaeth a risgiau Chwarter 4 | Cyflwyno Adolygiad o'r Risg Gorfforaethol i'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a'i rannu â Llywodraethu ac Archwilio er gwybodaeth |
| **Mai** | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Mehefin** | Amherthnasol | Adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol | Adroddiad Diweddariad Perfformiad Chwarter 3 a 4 (Hunanasesiad) i'w cyflwyno i'r Cabinet, y Pwyllgor Craffu Perfformiad a Llywodraethu ac Archwilio |
| **Gorffennaf** | Amherthnasol | Diweddariad o gynlluniau gwasanaethau a risgiau ar gyfer Chwarter 1 | Rhannu Adolygiad o'r Risg Gorfforaethol â'r Cabinet, y Pwyllgor Craffu Perfformiad a Llywodraethu ac Archwilio er gwybodaeth<br><br>Adroddiad Diweddariad Perfformiad Chwarter 3 a 4 (Hunanasesiad) i'w cyflwyno i'r Cyngor i'w cymeradwyo'n derfynol |
| **Awst** | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Medi** | Amherthnasol | | Amherthnasol |
| **Hydref** | Amherthnasol | Diweddariad o gynlluniau gwasanaethau a risgiau ar gyfer Chwarter 2<br><br>Adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol | Amherthnasol |

# Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

| Mis | Cynllunio Ariannol | Cynllunio Gwasanaethau | Gwleidyddol |
|---|---|---|---|
| **Tachwedd** | Amherthnasol | Amherthnasol | Cyflwyno Adolygiad o'r Risg Gorfforaethol i'r Cabinet, y Pwyllgor Craffu Perfformiad a Llywodraethu ac Archwilio<br><br>Adroddiad Perfformiad Ch1 a 2 (Hunanasesiad) i'w cyflwyno i'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad |
| **Rhagfyr** | Setliad Ariannol Drafft gan Lywodraeth Cymru | Adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol | Amherthnasol |
| **Ionawr** | Amherthnasol | Cynllunio gwasanaeth yn dechrau<br><br>Diweddariad o gynlluniau gwasanaethau a risgiau ar gyfer Chwarter 3 | Rhannu Adolygiad o'r Risg Gorfforaethol â'r Cabinet, y Pwyllgor Craffu Perfformiad a Llywodraethu ac Archwilio er gwybodaeth |
| **Chwefror** | Setliad Ariannol terfynol gan Lywodraeth Cymru<br><br>Cytuno ar y gyllideb a Chynllun Ariannol Tymor Canol | Cwblhau'r gyllideb | Y Cyngor yn cytuno ar y gyllideb |
| **Mawrth** | Amherthnasol | Cwblhau cynlluniau gwasanaeth<br><br>Adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol | Amherthnasol |

**Sylwer**: Mae casglu, cyflwyno a dilysu Ffurflenni Statudol yn digwydd yn barhaus drwy'r flwyddyn. Mae'r amseroedd yn dibynnu ar y maes Gwasanaeth.

Nod yr holl broses hon yw sicrhau ein bod yn cyflwyno'r hyn y dywedom y byddem yn ei wneud a'n bod yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n cynnig gwasanaethau gwerth gwell i'n cwsmeriaid.

Oherwydd hyn, rydym ni'n agored ac yn dryloyw ym mhopeth a wnawn. Gellir gweld ein cynlluniau a'n hadroddiadau strategol ar-lein drwy wefan perfformiad y Cyngor ac maen nhw ar gael ar gais yn ein llyfrgelloedd a derbynfeydd.

# Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

## Sut ydym yn herio ein gwasanaethau i wella?

Mae'r Rhaglen Herio Perfformiad Gwasanaethau yn caniatáu craffu ar bob gwasanaeth yn y Cyngor unwaith bob blwyddyn ariannol. Mae'n gyfle i gael dialog ddwy ffordd agored a gonest rhwng y Pennaeth Gwasanaeth a phanel penodedig am gryfderau a gwendidau darpariaeth gwasanaeth, a hefyd gobeithio, datrys unrhyw faterion allweddol yn adeiladol. Mae'r panel yn cynnwys yr Aelodau Cabinet Arweiniol, uwch reolwyr, rheoleiddwyr a chynrychiolwyr o grwpiau gwleidyddol a chraffu.  Mae'n ofynnol i'r Pennaeth Gwasanaeth, gyda chefnogaeth y swyddogion perfformiad a'r Tîm Cynllunio Strategol gyflwyno dogfennau cefnogi o leiaf bythefnos cyn y cyfarfod. Mae hyn yn cynnwys y Camau Gweithredu Herio Perfformiad Gwasanaeth o'r Her flaenorol; hunanasesiad yn amlinellu cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau; yr Adroddiad Cynllun Gwasanaeth a Chofrestr Risg y Gwasanaeth (o Verto).

Mae'r Heriau hefyd yn bwydo i broses hunanasesu'r Cyngor ac yn ein helpu i ddynodi gweithgaredd gwella allweddol, fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Cynllunio Strategol.

## Beth mae coch, oren, melyn a gwyrdd yn ei olygu i berfformiad?

Nid ydym yn defnyddio 'targedau' i farnu llwyddiant perfformiad. Yn hytrach rydym yn mynegi ein huchelgais gan ddefnyddio dull pedwar cam i asesu'r statws perfformiad.

Ein dull diofyn er mwyn gosod ein statws perfformiad yw cymryd y chwartel uchaf (y perfformiad gorau) fel y pwynt ble mae'r perfformiad yn Ardderchog, a'r canolrif fel y pwynt lle dylid ystyried fod angen i'r perfformiad fod yn Flaenoriaeth ar gyfer Gwella. Mae perfformiad Da a Derbyniol yn disgyn o bopty i'r gwerth canol rhwng y ddau bwynt hwn. Er enghraifft:

- 0 i 49 = Trothwy Blaenoriaeth ar gyfer Gwella.
- 50 i 62.4 = Trothwy derbyniol.
- 62.5 i 74 = Trothwy da.

# Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

- 75 i 100 = Trothwy ardderchog.

Gan ddefnyddio'r dull hwn, mewn enghraifft ble mae 76% o ffyrdd yn bodloni safon dderbyniol o lanweithdra, byddem yn barnu bod ein perfformiad yn Ardderchog. Yn groes i hynny, pe bai safon ein glanweithdra yn 24% byddem yn barnu bod hyn yn Flaenoriaeth ar gyfer Gwella.

Sylwer, mae'r dull hwn ychydig yn wahanol i Lywodraeth Cymru, sy'n ystyried y chwartel isaf (perfformiad gwaethaf) fel y pwynt sy'n penderfynu statws Blaenoriaeth ar gyfer Gwella. Yn Sir Ddinbych rydym wedi penderfynu bod yn fwy uchelgeisiol.

Os nad oes data ar gael i ni allu cymharu ein hunain ag eraill (naill ai'n genedlaethol neu â grwpiau cymharol, er enghraifft, grŵp teulu) yna byddwn yn cymryd safbwynt lleol ar yr hyn yr ystyriwn sy'n berfformiad Ardderchog ac yn Flaenoriaeth ar gyfer Gwella. Bydd hyn yn cynrychioli ein huchelgais i fod yn Gyngor sy'n perfformio'n dda, ble mae statws Ardderchog yn cael ei gyflawni dim ond pan fyddwn yn bodloni ein huchelgais.

Wrth osod trothwyon lleol, mae angen gwerthusiad gonest o'r ffordd yr ydym yn gweld ein perfformiad presennol a beth yw ein huchelgais. Felly, mae angen i ni gael dealltwriaeth dda o angen y cwsmer. Gallwch weld ein hasesiad lles (o anghenion) ar-lein ar wefan Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych.

## Beth yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Bydd yn gwneud i ni feddwl mwy am yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a'r naill a'r llall, ceisio atal problemau a chymryd agwedd fwy cydgysylltiedig gyda phartneriaid.

Rhaid deall pob penderfyniad yng nghyd-destun yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy, h.y. a yw anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain?

# Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

Mae pum peth i ni eu hystyried er mwyn gallu dangos ein bod wedi cymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy:

### 1. Hirdymor

Pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i fodloni anghenion hirdymor hefyd.

### 2. Atal

Sut y gallai gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.

### 3. Integreiddio

Ystyried sut y gall amcanion lles y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r amcanion lles, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

### 4. Cydweithio

Gweithredu mewn cydweithrediad ag unrhyw un arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion lles.

### 5. Cyfranogi

Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r amcanion lles, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.

I gael rhagor o wybodaeth am y Ddeddf, edrychwch ar Hanfodion Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar-lein.

# Beth yw'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau?

Dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae'n ofynnol i'r Cyngor adrodd drwy broses hunanasesu flynyddol ar ei swyddogaethau. Mae'r rhain yn cynnwys amcanion ein Cynllun Corfforaethol a'r saith maes llywodraethu:

# Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

- Cynllunio Corfforaethol
- Cynllunio Ariannol
- Cynllunio'r Gweithlu (pobl)
- Caffael
- Asedau
- Rheoli Risg
- Rheoli Perfformiad

Mae'n rhaid i Adroddiad Hunanasesu'r Cyngor nodi unrhyw gamau gwella y mae'n bwriadu eu cymryd er mwyn gwella perfformiad. Mae'n hefyd yn ofynnol dan y Ddeddf i ymgysylltu â budd-ddeiliaid ar berfformiad y Cyngor bob blwyddyn. Byddwn yn gwneud hyn drwy ein Harolwg Budd-ddeiliad ac mae'r canlyniadau'n cael eu cynnwys yn ein hadroddiadau perfformiad.

Rydym yn darparu Adroddiadau Diweddariad Perfformiad rheolaidd (bob chwe mis o leiaf) sy'n cynnwys yr holl agweddau uchod i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Cabinet a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad, ac ynghyd â'n Hadroddiad Crynodeb Gweithredol ar ddiwedd blwyddyn, gyda'i gilydd mae'r adroddiadau hyn yn ffurfio ein Hunanasesiad o berfformiad. Mae hefyd yn ofynnol dan y ddeddfwriaeth i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor adolygu drafft o'r Adroddiad Hunanasesu a gwneud argymhellion pan fo'n briodol cyn i'r Cyngor ei gymeradwyo. Fel arfer, cyhoeddir yr holl elfennau ar ein gwefan perfformiad erbyn mis Medi bob blwyddyn.

## Asesiadau Perfformiad Panel

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 hefyd yn cyflwyno dyletswydd i Gynghorau i drefnu panel annibynnol dan arweiniad cymheiriaid i gynnal asesiad, o leiaf unwaith yn ystod pob cylch etholiadol, i asesu i ba raddau y mae'r Cyngor yn bodloni ei ofynion o ran perfformiad. Pwrpas yr Asesiad Perfformiad Panel yw rhoi safbwynt allanol, a dylid ei ddefnyddio i helpu'r Cyngor wella. Fel arfer, cynhelir asesiad dros gyfnod o bedwar diwrnod ac mae'n cynnwys adolygu dogfennau a chynnal cyfweliadau a grwpiau ffocws gyda swyddogion, cynghorwyr a budd-ddeiliaid allweddol.

# Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

Wrth gyhoeddi ac ymateb i Asesiad Perfformiad Panel, mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried y casgliadau a'r argymhellion er mwyn nodi'r camau gweithredu y bydd yn eu cymryd i fodloni'r gofynion perfformiad yn well. Rhaid i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor adolygu drafft o'r Adroddiad Ymateb hwn i Asesiad Perfformiad Panel. Dylai'r Cyngor fyfyrio ar yr Asesiad Perfformiad Panel pan fydd yn cynnal ei hunanasesiad nesaf, i weld a yw gwersi a ddysgwyd wedi cael eu rhoi ar waith. Mae hyn yn rhan o ddiwylliant ble mae'r Cyngor yn croesawu her.

I gael rhagor o wybodaeth am ofynion perfformiad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ewch i'r Canllawiau Statudol.

## Beth am ddeddfwriaeth arall?

Mae sawl darn arall pwysig o ddeddfwriaeth y mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn cydymffurfio â nhw fel Cyngor, h.y. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol) a'r Rheoliadau dilynol yn 2011, Deddf Tai (2016), a Deddf Cynllunio (2015). Mae'r rhain hefyd yn cefnogi egwyddorion arweiniol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 drwy roi lles unigolion a chymunedau a chyfranogi wrth wraidd popeth a wnawn.

# Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

## Rhywbeth i bawb

### Rydym i gyd yn disgwyl:

- Bod gwasanaethau'r Cyngor yn cael eu darparu i safon uchel, gan fodloni angen y cwsmer.
- Bod dyletswyddau deddfwriaethol yn cael eu bodloni.
- Mynediad at wybodaeth a data cyfredol sy'n dweud wrthym sut mae'r Cyngor yn perfformio.
- Bod rhywun yn gwrando arnom ac yn gweithredu ar ein pryderon.

### Mae gan bawb ohonom gyfrifoldeb i hyrwyddo:

- Ymgynghori ac ymgysylltu.
- Y Gymraeg.
- Mynediad at wasanaethau a pharch pobl eraill, gan gadw mewn cof y naw nodwedd warchodedig a'r rhai sydd mewn tlodi.
- Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r pum dull o lywodraethu.

### Sut ydym ni'n gwneud hyn?

Gyda'n gilydd, mae gennym i gyd ran i'w chwarae i sicrhau bod y disgwyliadau hyn yn cael eu bodloni. Rydym yn gwneud hyn yn naturiol drwy ein rhyngweithio â'n gilydd ac â'r Cyngor. Er mwyn deall y cyfraniad y gallwch chi ei wneud fel unigolyn, darllenwch drwy'r rolau isod.

# Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

## Rydw i'n Aelod o'r Cyhoedd

### Fel aelod o'r cyhoedd rydw i'n disgwyl:

- Gwasanaethau ansawdd uchel sydd wedi eu cynllunio'n dda ac yn bodloni fy anghenion.
- Mynediad at wybodaeth a data cyfredol sy'n hawdd ei deall.

### Rydw i'n gyfrifol am:

- Roi gwybodaeth yn sail i gynllunio gwasanaethau'r Cyngor, a dweud wrthynt beth sy'n bwysig i mi.
- Herio perfformiad y Cyngor a rhoi gwybod iddynt ble gellir gwneud pethau'n well. Gweler Eich Llais ar ein gwefan.

### Sut mae gwneud hyn?

- Cyhoeddir ein hadroddiadau hunanasesu ar ein tudalen perfformiad ar-lein ac mae'n cynnwys ein hadroddiadau diweddariad perfformiad rheolaidd.
- Fel cyfarfodydd y Cyngor, mae'r Cabinet a Chraffu yn gyhoeddus ac mae croeso i chi fynychu. Gallwch hefyd weld rhai cyfarfodydd ar-lein drwy We-ddarllediadau Cyngor Sir Ddinbych
- Gallwch roi gwybod i'r Cyngor beth rydych chi'n feddwl unrhyw bryd mewn sawl ffordd:

  - **Ymweld â ni:** Ar ein gwefan, dewch o hyd i un o swyddfeydd y Cyngor neu Siop Un Alwad.
  - **Ar-lein:** Ffurflen Ymholiadau Cyffredinol ar ein gwefan
  - Cwynion, canmoliaeth ac adborth
  - Dewch o hyd i ni ar Facebook a Twitter!
  - **Ffôn:** 01824 706000 (Dydd Llun i Ddydd Gwener 8:30am i 5pm). Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome telephone calls in Welsh.

## Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

- **Ysgrifennwch atom:** Cyngor Sir Ddinbych, Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ
- **Siaradwch â'ch cynghorydd:** Dod o hyd i'ch cynghorydd - www.sirddinbych.gov.uk

# Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

## Rydw i'n Aelod Etholedig

### Fel Aelod Etholedig rydw i'n disgwyl:

- Gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ddibynadwy gan swyddogion y Cyngor i'm helpu i wneud penderfyniadau a chyflawni fy rôl.
- Cael gwybod am faterion sy'n effeithio ar fy ward.

### Rydw i'n gyfrifol am:

- Benderfynu ar weledigaeth strategol y Cyngor a rhoi gwybodaeth yn sail i gynllunio gwasanaeth y Cyngor, cynrychioli'r gymuned a rhoi llais i'r hyn sy'n bwysig i breswylwyr.
- Herio perfformiad a rheoli risg y Cyngor, gan geisio gwelliant lle bo modd.

### Sut mae gwneud hyn?

- Cyfranogi mewn cyfarfodydd, cynrychioli llais y dinesydd.
- Codi materion a phryderon gyda rheolwyr perthnasol.
- Ymgysylltu ac archwilio'r wybodaeth sydd ar gael mewn adroddiadau perfformiad er mwyn helpu i lywio penderfyniadau a nodi ffyrdd o wneud gwelliannau.

# Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

## Rydw i'n Aelod Cabinet

### Fel Aelod Cabinet rydw i'n disgwyl:

- Adroddiadau perfformiad a risg cywir ac amserol er mwyn helpu i lywio penderfyniadau a nodi meysydd ar gyfer gwella.

### Rydw i'n gyfrifol am:

- Lywio cynlluniau gwasanaeth yn fy mhortffolio, a chytuno arnynt (erbyn 31 Mawrth).
- Monitro darpariaeth cynlluniau gwasanaeth a rheoli Cofrestrau Risg Gwasanaethau gyda Phenaethiaid Gwasanaeth bob chwarter.
- Monitro a llywio'r gwaith o gyflawni ein Cynllun Corfforaethol.
- Monitro a rheoli risgiau ar y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol.

### Ydw i wedi?

- Cyfarfod â'r Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol yn fy mhortffolio i roi mewnbwn a chytuno ar gynnwys y Cynllun Gwasanaeth?
- Rhoi mewnbwn i'r broses Herio Perfformiad Gwasanaeth?
- Adolygu gwybodaeth perfformiad a risg ar gyfer y Cyngor a'r gwasanaethau rydw i'n eu cynrychioli bob chwarter?

# Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

## Rydw i'n Aelod Craffu

### Fel Aelod Craffu rydw i'n disgwyl:

- Adroddiadau perfformiad a risg cywir ac amserol er mwyn helpu i graffu ar ddarpariaeth gwasanaethau a nodi meysydd ar gyfer gwella.

### Rydw i'n gyfrifol am:

- Graffu ar gyflawni cynlluniau gwasanaeth a rheoli cofrestrau risgiau gwasanaeth.
- Craffu ar gyflawni'r Cynllun Corfforaethol.
- Craffu ar reoli ein Cofrestr Risgiau Gorfforaethol.

### Ydw i wedi?

- Rhoi mewnbwn i'r broses Herio Perfformiad Gwasanaeth?
- Adolygu gwybodaeth perfformiad a risg ar gyfer y Cyngor yn rheolaidd?

# Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

## Rydw i'n aelod Llywodraethu ac Archwilio

### Fel aelod o Lywodraethu ac Archwilio rydw i'n disgwyl:

- Sicrwydd bod ein prosesau perfformiad a risg yn gadarn ac yn cael eu defnyddio'n gyson ar draws y Cyngor.

### Rydw i'n gyfrifol am:

- Fonitro effeithiolrwydd ein prosesau perfformiad a rheoli risg.

### Ydw i wedi?

- Adolygu gwybodaeth am berfformiad a risg mewn adroddiadau a gyflwynwyd i'r Cabinet a Chraffu?
- Darllen papurau Herio Perfformiad Gwasanaeth?
- Adolygu a gwneud argymhellion ar adroddiadau hunanasesu'r Cyngor ac ymateb y Cyngor i'r Asesiad o Berfformiad gan Gymheiriaid?

# Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

## Rydw i'n aelod o staff

### Fel aelod o staff rydw i'n disgwyl:

- Deall y Cynllun Corfforaethol a'r cyfraniad mae fy ngwaith yn ei wneud tuag ato.
- Bod pecynnau a systemau ar waith sy'n cefnogi datblygu, cyfathrebu a monitro ein gwybodaeth perfformiad a risg, gan fy helpu i ddeall sut mae'r Cyngor a'i wasanaethau'n perfformio.

### Rydw i'n gyfrifol am:

- Gefnogi cyflawni'r Cynllun Gwasanaeth.
- Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i wella darpariaeth gwasanaethau.

### Sut mae gwneud hyn?

- Gofyn cwestiynau, cyfrannu syniadau a herio'r ffordd rydym ni'n gwneud pethau.
- Codi unrhyw risgiau neu bryderon gyda rheolwyr.
- Rhoi diweddariadau gonest a hawdd eu deall ar gynnydd y gwaith.
- Bod yn rhan o'r broses cynllunio gwasanaeth a rhoi eich mewnbwn i'r Cynllun Gwasanaeth.
- Ymgysylltu â phroses hunanasesu'r gwasanaeth a darllen y papurau Herio Gwasanaeth.
- Gwybod am berfformiad cyfredol y Cyngor drwy edrych ar ein papurau herio gwasanaeth, ein hadroddiadau perfformiad neu drwy raglenni'r pwyllgorau ar gyfer y Cabinet neu'r Pwyllgor Craffu Perfformiad. Neu, ewch i'n tudalen perfformiad ar y wefan.

# Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

## Rydw i'n Brif Weithredwr neu Gyfarwyddwr Corfforaethol

### Fel y Prif Weithredwr neu Gyfarwyddwr Corfforaethol rydw i'n disgwyl:

- Bod staff yn ymgysylltu â'n Cynllun Corfforaethol ac yn deall beth yw eu cyfraniad.

### Rydw i'n gyfrifol am:

- Gyfathrebu gweledigaeth strategol y Cyngor, yn enwedig y Cynllun Corfforaethol.
- Monitro'r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol.
- Herio perfformiad gwael a chefnogi gwelliannau i wasanaethau.
- Rhoi gwybodaeth i aelodau etholedig ynglŷn â materion sy'n berthnasol iddyn nhw.
- Gweithredu cynlluniau tymor hir ac asesiadau risg wrth gyflwyno gwasanaethau.

### Ydw i wedi?

- Rhoi mewnbwn i gynlluniau gwasanaeth?
- Adolygu data perfformiad gwasanaeth a risg gyda Phenaethiaid Gwasanaeth bob chwarter o leiaf?
- Rhoi mewnbwn i'r rhaglen Herio Perfformiad Gwasanaeth?
- Adolygu cynnwys Asesiad Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a defnyddio'r wybodaeth i siapio cynlluniau a darpariaeth gwasanaethau?

# Gwella gwasanaethau i’n cymunedau

## Rydw i’n Bennaeth Gwasanaeth

### Fel Pennaeth Gwasanaeth rydw i’n disgwyl:

- Cael arweiniad ar gynllunio gwasanaeth gan Gyfarwyddwyr Corfforaethol, Aelodau Cabinet a’r Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad.
- Bod aelodau Craffu a staff hefyd yn cyfrannu at ddatblygu a darparu’r gwasanaeth.

### Rydw i’n gyfrifol am:

- Ddatblygu, cyfathrebu a darparu’r Cynllun Gwasanaeth gyda budd-ddeiliaid allweddol, gan gynnwys diweddaru aelodau etholedig yn rheolaidd ar faterion sy’n berthnasol iddynt.
- Cynnal y Cynllun Gwasanaeth  a deall y cyfraniad a wna i’r Cynllun Corfforaethol.
- Rheoli risg gwasanaeth, gyda mewnbwn gan staff.
- Cynnwys staff wrth ddatblygu hunanasesiad y gwasanaeth.
- Deall perfformiad y gwasanaeth a sicrhau bod disgwyliadau perfformiad yn cael eu bodloni.

### Ydw i wedi?

- Ymgynghori ac ymgysylltu â budd-ddeiliaid allweddol wrth ddatblygu’r Cynllun Gwasanaeth, gan gynnwys rheolwyr, staff ac Aelodau Cabinet Arweiniol?
- Ystyried anghenion y cwsmer a rhoi sylw i unrhyw ddyletswyddau deddfwriaethol perthnasol?
- Ystyried goblygiadau'r Cynllun Gwasanaeth a darparu asesiad o unrhyw ofynion ariannol, gwasanaeth cymorth a’r gweithlu?
- Gosod trothwyon perfformiad a dyddiadau dechrau a gorffen realistig ar gyfer prosiectau a gweithgareddau?
- Rhoi mewnbwn i waith papur Herio Perfformiad Gwasanaeth, gyda staff yn rhoi mewnbwn i hunanasesu’r gwasanaeth?

## Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

- Adolygu'r data ar risg a pherfformiad bob chwarter gyda fy Aelod(au) Cabinet a'r tîm rheoli ac adnabod cyfleoedd i wella?
- Cyfathrebu negeseuon allweddol ar berfformiad i staff (da a drwg)?
- Adolygu cynnwys Asesiad Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a defnyddio'r wybodaeth i siapio cynlluniau a darpariaeth gwasanaethau?

# Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

## Rydw i'n Rheolwr

### Fel Rheolwr rydw i'n disgwyl:

- Cyfarwyddyd clir gan y Cyngor, y Cabinet ac uwch arweinwyr.
- Bod staff yn rhan o gyflwyno'r Cynllun Gwasanaeth a'u bod yn deall eu cyfraniad tuag ato a thuag at y Cynllun Corfforaethol.

### Rydw i'n gyfrifol am:

- Helpu'r Penaethiaid Gwasanaeth i gyfathrebu gweledigaeth strategol y Cyngor a chynnwys staff mewn datblygu a darparu'r Cynllun Gwasanaeth, gan gynnwys diweddaru aelodau etholedig ar faterion sy'n berthnasol iddynt.
- Sicrhau bod staff yn ymgysylltu ac yn ymrwymo â gweithgarwch o fewn y Cynllun Gwasanaeth.
- Cefnogi'r Pennaeth Gwasanaeth i fonitro Cofrestr Risg y Gwasanaeth, a gweithio gydag aelodau'r tîm.
- Rhoi diweddariadau manwl ac amserol ar berfformiad, monitro a yw ein disgwyliadau o ran perfformiad wedi eu bodloni.

### Ydw i wedi?

- Ymgynghori ac ymgysylltu â budd-ddeiliaid allweddol yn ystod datblygu'r Cynllun Gwasanaeth?
- Ymdrin ag unrhyw ddyletswyddau deddfwriaethol newydd yn y Cynllun Gwasanaeth?
- Gwerthuso goblygiadau'r Cynllun Gwasanaeth, a chynnwys asesiad o unrhyw ofynion ariannol, gwasanaeth cymorth ac i'r gweithlu?
- Gosod trothwyon perfformiad a dyddiadau dechrau a gorffen realistig ar gyfer prosiectau a gweithgareddau?
- Ymgysylltu â Herio Perfformiad Gwasanaeth blynyddol y Gwasanaeth a sicrhau bod staff wedi cael mewnbwn i'w hunanasesiad?

## Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

- Adolygu'r data ar risg a pherfformiad bob chwarter er mwyn llywio gwelliannau i'r gwasanaeth?
- Cyfathrebu negeseuon allweddol ar berfformiad i staff (da a drwg)?
- Adolygu cynnwys Asesiad Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a defnyddio'r wybodaeth i siapio cynlluniau a darpariaeth gwasanaethau?

# Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

## Rydw i'n Swyddog Perfformiad o fewn gwasanaeth

### Fel Swyddog Perfformiad Arweiniol rydw i'n disgwyl:

- Bod â dealltwriaeth glir o ymrwymiadau'r Cyngor a'i bartneriaid.
- Bod y Cynlluniau Gwasanaeth yn cael mewnbwn a her barhaus gan fudd-ddeiliaid gan gynnwys y Cyfarwyddwyr Corfforaethol, Aelodau Cabinet Arweiniol, staff a'r cyhoedd.

### Rydw i'n gyfrifol am:

- Gefnogi'r Pennaeth Gwasanaeth i gwblhau a chyfathrebu Cynllun Gwasanaeth clir a hawdd ei ddilyn (erbyn 31 Mawrth), gan sicrhau bod y bobl iawn yn cael eu cynnwys a bod staff yn deall eu hymrwymiadau. Dylai pwyslais y Cynllun Gwasanaeth fod ar weithgarwch gwella allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod, ac nid gwaith o ddydd i ddydd (gellir cynnwys hyn mewn cynlluniau gweithredol os oes angen).
- Cefnogi'r Pennaeth Gwasanaeth wrth baratoi papurau Herio Gwasanaeth.
- Diweddaru'r Cynllun Gwasanaeth yn barhaus (mae'n ddogfen fyw a dylid ei diweddaru'n dilyn unrhyw weithgaredd newydd yn ystod y flwyddyn).
- Sicrhau bod diweddariadau perfformiad chwarterol cywir a hawdd eu deall yn cael eu cofnodi yn y system Verto cyn pen mis o ddiwedd y chwarter. Dylai unrhyw sylwadau a roddir fod yn ddiamwys a heb gynnwys acronymau.

### Ydw i wedi?

- Cydlynu cyfarfodydd cynllunio gwasanaeth rhwng y Pennaeth Gwasanaeth, staff, Aelodau Cabinet Arweiniol, a rheolwyr? Argymhellir fod y rhain yn dechrau ym mis Ionawr.
- Ymgynghori â'r Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad perthnasol a'i gynnwys i sicrhau bod y dull yn gyson ac nad yw'n gwrthdaro â gwaith a wneir mewn mannau eraill?

## Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

- Sicrhau bod ystyriaeth i anghenion cwsmeriaid, yn ogystal ag unrhyw ddyletswyddau deddfwriaethol perthnasol?
- Dadansoddi goblygiadau'r Cynllun Gwasanaeth, a chynnwys asesiad o unrhyw ofynion ariannol, gwasanaeth cymorth ac i'r gweithlu?
- Gosod trothwyon perfformiad a dyddiadau dechrau a gorffen realistig ar gyfer prosiectau a gweithgareddau?
- Defnyddio Verto i helpu i goladu manylion y Cynllun Gwasanaeth a chynnal Cofrestr Risg y Gwasanaeth?
- Helpu i baratoi gwaith papur y gwasanaeth ar gyfer Herio Perfformiad, allai gynnwys cydlynu gwaith hunanasesu'r gwasanaeth?

# Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

## Rydw i'n Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad

### Fel Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad rydw i'n disgwyl:

- Bod gwasanaethau'n ymgysylltu â'r broses cynllunio gwasanaeth, a bod cynlluniau gwasanaeth wedi eu cwblhau yn Verto erbyn 31 Mawrth.
- Bod Cofrestrau Risg Gwasanaeth gael eu cynnal a'u diweddaru.
- Bod diweddariadau chwarterol cywir yn cael eu cyflwyno cyn pen mis i ddiwedd chwarter, gyda sylwadau clir a dealladwy lle bo hynny'n briodol.
- Bod adroddiadau'n cael eu herio gan fudd-ddeiliaid, yn enwedig gan y Cabinet, Craffu a'r cyhoedd.
- Bod dogfennau Herio Gwasanaeth cywir yn cael eu cwblhau o fewn amserlenni.
- Bod gwasanaethau'n defnyddio'r data y maen nhw'n ei gasglu i lywio eu gwelliannau eu hunain.

### Rydw i'n gyfrifol am:

- Gynnal cywirdeb y broses o gasglu data, monitro ac adrodd o fewn y Cyngor.
- Cefnogi gwasanaethau i gynllunio a rheoli risg, gan sicrhau y defnyddir dull cyson, a rhoi sylw dyledus i ofynion deddfwriaethol allweddol ac ymrwymiadau eraill y Cyngor a phartneriaethau.
- Cynhyrchu adroddiadau perfformiad cywir fel sy'n ofynnol gan uwch arweinwyr, y Cyngor, y Cabinet, Craffu, Llywodraethu ac Archwilio a'r broses Herio Perfformiad Gwasanaeth.
- Cefnogi cyflawni'r Cynllun Corfforaethol.

### Ydw i wedi?

- Hwyluso cyfarfodydd cynllunio gwasanaeth gyda budd-ddeiliaid allweddol, gan sicrhau bod gwasanaethau ar y trywydd iawn i fodloni'r dyddiad cau (31 Mawrth)?
- Monitro diweddariadau perfformiad a risg gan wasanaethau, gan gynhyrchu adroddiadau perfformiad fel bo angen?

## Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

- Cefnogi gwasanaethau wrth baratoi eu gwaith papur ar gyfer Herio Perfformiad Gwasanaeth?
- Cefnogi trefniadau llywodraethu'r Cynllun Corfforaethol, yn cynnwys Byrddau Rhaglenni pan fo'n briodol?

# Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

## Geirfa

### Cynlluniau

#### Cynllun Corfforaethol

Y Cynllun Corfforaethol yw cynllun strategol cynhwysfawr y Cyngor, ac mae'n ymateb i **Gynllun Lles** y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'n nodi ein prif flaenoriaethau ar gyfer tymor y Cyngor Sir. Mae'n eistedd uwchben y **cynlluniau gwasanaeth** ac mae'n cyd-fynd â nhw.

#### Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cynllun Corfforaethol

Mae yna Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cynllun Corfforaethol (a elwir hefyd yn Ddogfen Dechnegol) sy'n nodi'r holl ddangosyddion, mesuryddion perfformiad a'r gweithgarwch yn y Cynllun Corfforaethol, yn cynnwys trothwyon perfformiad pan fo'n briodol a ffynonellau data.

#### Cynllun Ariannol Tymor Canolig

Mae'n bwysig bod y Cyngor yn ystyried ei gyllideb am fwy nag un flwyddyn. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gwneud hyn drwy ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig sy'n edrych ar y tair blynedd nesaf ac yn amcangyfrif beth allai ddigwydd i'r Cyngor yn ystod y cyfnod hwnnw, a beth allai hynny ei olygu ar gyfer ei gyllid. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn dilyn y cynlluniau a gyflwynir gan wasanaethau yn ystod y broses cynllunio gwasanaethau.

#### Cynllun Gwasanaeth

Y Cynllun Gwasanaeth yw'r sail ar gyfer strwythur rheoli perfformiad y Cyngor. Mae'n cynnwys pob dangosydd a mesur perfformiad a gweithgarwch gwella sy'n ymwneud â'r **canlyniadau** allweddol y mae gwasanaethau yn eu hystyried yn bwysig. Mae'r Cynlluniau Gwasanaeth yn bwydo i **Gynllun Corfforaethol**, a chânt eu cymeradwyo gan yr Aelod Cabinet Arweiniol perthnasol. Mae gan rai gwasanaethau gynlluniau gweithredol hefyd o dan eu cynlluniau gwasanaeth, ond ni chaiff y rhain eu monitro'n gorfforaethol.

# Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

## Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Dan **Ddeddf Cydraddoldeb 2010** mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus gael cynllun i ymdrin ag anghydraddoldebau. O'r blaen, roedd hon yn ddogfen ar wahân i **Gynllun Corfforaethol** y Cyngor, ond mae bellach wedi ei hymgorffori ynddo. Un o'r Nodau Lles a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yw cael Cymru sy'n Fwy Cyfartal. Mae'n gwneud synnwyr, felly, i ymgorffori hyn i'n busnes craidd. Wrth drafod cydraddoldeb, mae naw nodwedd warchodedig: oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas neu bartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhywedd; a chyfeiriadedd rhywiol. Rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus hefyd i'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol, sy'n sicrhau nad yw ein penderfyniadau a'n gweithredoedd yn cael effaith negyddol ar y rhai sydd eisoes dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

## Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae'n ofynnol i'r Cyngor adrodd ar ei swyddogaethau drwy broses **Hunanasesu** flynyddol, yn ogystal â thrwy asesiad dan arweiniad cymheiriaid sy'n rhaid ei gynnal unwaith ym mhob cylch etholiadol. I gael rhagor o wybodaeth am ofynion perfformiad y Ddeddf hon, ewch i'r Canllawiau Statudol.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd yn gwneud i ni feddwl mwy am y tymor hir, sut i weithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'n gilydd, ceisio atal problemau ac edrych ar bethau'n fwy cyd-gysylltiedig â'n partneriaid. Rhaid deall pob penderfyniad yng nghyd-destun yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy. I gael rhagor o wybodaeth am y Ddeddf, edrychwch ar wefan Hanfodion Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

## Cynllun Lles

Y Cynllun Lles yw'r cynllun strategol y cytunwyd arno rhwng partneriaid ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

(Cymru) 2015, ac mae’n ceisio cyflwyno canlyniadau allweddol sy’n cael eu rhannu ar draws gwahanol sefydliadau.

## Adroddiadau

### Crynodeb Gweithredol - Hunanasesiad

Crynodeb hygyrch, diwedd blwyddyn o’n perfformiad yn erbyn swyddogaethau allweddol. Mae hyn cynnwys ein hamcanion perfformiad fel Cyngor, a pherfformiad yn erbyn y saith maes llywodraethu.  Fe’i cynhyrchir mewn ymateb i **Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**.

### Asesiadau Perfformiad Panel

Mae’n rhaid i banel dan arweiniad cymheiriaid gynnal asesiad o berfformiad y Cyngor a llunio adroddiad o’u darganfyddiadau unwaith bob cylch etholiadol.

### Ymateb i Asesiadau Perfformiad Panel

Rhaid i’r Cyngor lunio ymateb yn dilyn **Asesiad Perfformiad Panel**, sy’n amlinellu’r camau y bydd y Cyngor yn eu cymryd er mwyn gwella ei allu i fodloni gofynion perfformiad.

### Adroddiad Diweddaru Perfformiad

Mae’r Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad yn cynhyrchu Adroddiad Perfformiad rheolaidd i’r Pwyllgor Craffu Perfformiad, y Cabinet a’r Uwch Dim Arweinyddiaeth, sy’n dangos cynnydd parhaus y Cyngor yn erbyn cyflenwi’r Cynllun Corfforaethol a’r saith maes llywodraethu.

### Adroddiad Hunanasesu

Mae’r Hunanasesiad o berfformiad gan y Cyngor yn cynnwys **Adroddiadau Diweddaru Perfformiad** yn ogystal â’r Crynodeb Gweithredol.

# Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

### Adroddiad Perfformiad Gwasanaeth

Cynhyrchir Adroddiad Perfformiad Gwasanaeth gan ein **system Rheoli Perfformiad** Verto cyn **Her Perfformiad Gwasanaeth** ac mae'n archwilio'r perfformiad yn erbyn y **Cynllun Gwasanaeth**.

### Hunanasesu'r Gwasanaeth

Mae gwasanaethau'n cynnal ymarfer hunanasesiad SWOT yn barod am yr **Heriau Perfformiad Gwasanaeth.** Mae'r rhain yn helpu uwch reolwyr a chynghorwyr i ddeall cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau gwasanaeth o ran ei ddarpariaeth.

### Asesiad o Effaith ar Les

Mae Asesiadau o Effaith ar les yn werthusiad o effaith bosibl penderfyniadau a wneir gan y Cyngor, sy'n cynnwys newidiadau i brosiectau, polisïau, canllawiau, cynlluniau a strategaethau, neu rai newydd. Maent hefyd yn cefnogi gwerthusiad o ba mor dda mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n cael ei defnyddio. Mater o grebwyll proffesiynol yw a oes angen asesiad o effaith, ond dylai swyddogion ystyried y risg os na fydd effaith cynnig yn cael ei asesu. Yn gyffredinol, bydd angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer adroddiadau i bwyllgorau, ac mae angen cynnal asesiadau o effaith ar gyfer prosiectau ar Verto wrth iddynt symud o friff y prosiect i byrth achosion busnes.

## Rheoli Perfformiad

### Trothwy Rhagoriaeth

Y Trothwy Rhagoriaeth yw'r pwynt lle'r ystyrir fod perfformiad ar gyfer **dangosydd** neu **fesur perfformiad** wedi bodloni ein huchelgais. Felly mae Trothwyon Rhagoriaeth yn eu hanfod yn heriol ac uchelgeisiol. Safle diofyn y cyngor fel arfer yw'r chwartel uchaf, os oes cymhariaeth genedlaethol ar gael.

### Gweithgaredd gwella

Mae Gweithgaredd Gwella yn rhaglenni, prosiectau neu gamau allweddol a nodwyd er mwyn cefnogi'r **canlyniad**. Mae'n cynnwys camau sy'n codi o Archwilio Mewnol, **Heriau**

# Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

**Perfformiad Gwasanaeth**, yr arolwg staff neu **gofrestrau risg**. Gellir datblygu gweithgareddau gwella hefyd drwy Adroddiadau Diweddaru Perfformiad y Cyngor a'r Crynodeb Gweithredol sy'n rhan o'r Hunanasesiad o berfformiad.

## Dangosydd

Mae dangosydd yn fesur na allwn ei reoli'n llawn ac mae fel arfer yn cyfleu 'effaith' yr hyn a wnawn. Mae ffactorau eraill y tu hwnt i reolaeth y Cyngor sy'n penderfynu ar berfformiad dangosydd. Dylid defnyddio'r templed yng nghefn y llyfryn hwn er mwyn diffinio'r dangosyddion.

## Ymyrraeth

Yr Ymyrraeth, neu'r Trothwy Gwella yw'r pwynt ble gellir ystyried bod perfformiad ar gyfer **dangosydd** neu **fesur perfformiad** yn Flaenoriaeth ar gyfer Gwella. Safle diofyn y cyngor fel arfer yw Canolrif Cymru, os oes cymhariaeth genedlaethol ar gael.

## Canlyniad

Mae'r Cyngor yn defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniad, sef Canlyniadau'n Cyfrif i fonitro darpariaeth ei gynlluniau. Mae canlyniad yn fantais a brofir gan gwsmer (y cyhoedd fel arfer) neu gymuned (megis busnesau, er enghraifft). Ar gyfer gwasanaethau cefnogi, gall y cwsmer fod yn fewnol. Enghraifft o ganlyniad yw bod 'Myfyrwyr yn cyflawni eu potensial'.

## Rheoli Perfformiad

Rheoli perfformiad yw'r strwythurau a'r prosesau sydd gennym ar waith i sicrhau ein bod yn darparu'r hyn a ddwedom y byddem yn ei ddarparu, gan annog cyfranogiad a herio gan bob rhan o'r Cyngor, ein haelodau etholedig a'n preswylwyr.

## System Rheoli Perfformiad

Mae'r Cyngor yn defnyddio system reolaeth gwmwl a elwir yn Verto i fonitro perfformiad gwasanaeth a gwybodaeth rheoli risg a phrosiectau.

# Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

## Mesuryddion Perfformiad

Mae Mesuryddion Perfformiad o fewn rheolaeth y Cyngor yn gyfan gwbl, ac mae fel arfer yn cynnwys gweithgarwch yr ydym ni'n ei gyflawni ('ymdrech'). Gellir defnyddio'r templed yng nghefn y llyfryn hwn i helpu i ddiffinio'r mesuryddion.

## Cofrestr prosiectau

Mae'r Gofrestr Prosiectau yn gofnod o brosiectau cyfredol sydd ar y gweill gan y Cyngor.

## Herio Perfformiad Gwasanaeth

Mae Herio Perfformiad Gwasanaeth (neu Herio Gwasanaeth) yn broses flynyddol sy'n edrych ar berfformiad cyffredinol gwasanaeth. Yn gyffredinol, cynhelir un y mis. Fel arfer, mae'r panel yn cael ei gadeirio gan y Prif Weithredwr, a bydd yr Aelod(au) Cabinet Arweiniol perthnasol, cynrychiolwyr Craffu a grwpiau gwleidyddol, Cyfarwyddwyr Corfforaethol, Pennaeth y Gwasanaeth Cefnogi Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau a'r Pennaeth Cyllid ac Archwilio yn bresennol. Bydd ein rheoleiddwyr hefyd yn bresennol.

## Cynllunio Gwasanaeth

Mae cynllunio gwasanaeth yn weithgarwch sydd fel arfer yn digwydd rhwng Ionawr a Mawrth er mwyn cytuno ar y **cynlluniau gwasanaeth** ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol. Mae'r Swyddogion Cynllunio Strategol a Pherfformiad yn gweithio gyda'r Swyddogion Perfformiad Arweiniol, Rheolwyr Gwasanaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth i'w datblygu yn Verto erbyn 31 Mawrth, er eu bod yn ddogfennau byw sydd angen eu diweddaru drwy'r flwyddyn. Mae templed y **cynlluniau gwasanaeth** yn Verto, ac mae wedi ei seilio ar y dull Canlyniadau'n Cyfrif. Am fwy o ganllawiau ynglŷn â sut i greu cynllun gwasanaeth, siaradwch gyda'r Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad.

## Trothwyon

Yn Sir Ddinbych rydym yn osgoi'r term 'targedau'. Yn hytrach, dewiswn weithio o fewn amrediad sy'n cynrychioli'r hyn mae'n ei olygu i fod yn Ardderchog, Da, Derbyniol, neu'n Flaenoriaeth ar gyfer Gwella. Er mwyn penderfynu ar yr amrediad hwnnw rydym yn gosod

# Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

trothwy Rhagoriaeth ac **Ymyrraeth** (Blaenoriaeth ar gyfer Gwella) ar gyfer pob dangosydd a mesur perfformiad, fel arfer yn rhan o'n gweithgarwch **cynllunio gwasanaeth**. Cyfrifir trothwyon Derbyniol a Da drwy gymryd y pwynt canol rhwng Ardderchog ac Ymyrraeth. Pan fo'n bosibl, defnyddir data cenedlaethol i bennu trothwyon, neu fel arall fe'u pennir yn lleol. Mae Sir Ddinbych yn gweithio i'r un dull asesu pedwar cam o fewn Perfformiad, Rheoli Risg a Phrosiect.

## Rheoli Risg

### Y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol

Mae'r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol yn eiddo i'r Cabinet a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Mae'n cael ei monitro ganddynt a chan y Pwyllgor Craffu Perfformiad yn rheolaidd (o leiaf bob chwe mis). Mae'n cymryd y risgiau mwyaf difrifol a chyffredin o'r gofrestr risg gwasanaeth a phortffolios y Cyfarwyddwyr Corfforaethol. Fel y Cofrestrau Risg Gwasanaeth, mae'n cael ei chadw ar y system Verto.

### Mater

Mae mater yn cyfeirio at ganlyniadau digwyddiad sydd eisoes wedi digwydd, ac mae camau lliniaru gan reolwyr ar waith neu yn cael eu cynllunio. Gweler ganllawiau rheoli risg y Cyngor am fwy o wybodaeth fanwl.

### Risg

Mae risg yn ddigwyddiad a fyddai, pe bai'n digwydd, yn effeithio ar ein gallu i gyflawni ein blaenoriaethau'n llwyddiannus. Mae risg yn fesur a ddefnyddir i ddisgrifio'r ansicrwydd sy'n amgylchynu digwyddiad a'i effaith posibl.

### Parodrwydd i Dderbyn Risg

Diffinnir hyn fel lefel y risg yr ydym yn barod i'w goddef neu ei derbyn wrth gyflawni ein hamcanion strategol hirdymor. Er enghraifft, gall y Cyngor benderfynu na fydd yn goddef unrhyw risg i'w gyllid, ond mae'n fwy parod i fod yn agored i risg i'w enw da. Darllenwch am reoli risg a'n parodrwydd i'w dderbyn ar ein gwefan.

# Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

### Cofrestr Risg Gwasanaeth

Mae'r Gofrestr Risg Gwasanaeth yn cynnwys y risgiau o fewn portffolio Pennaeth Gwasanaeth. Fel y **Gofrestr Risgiau Gorfforaethol**, caiff y rhain eu monitro drwy'r system Verto.

## Rheoleiddwyr

### Archwilio Cymru

Mae Archwilio Cymru yn cynnal gwaith maes i adolygu gwaith cyrff cyhoeddus fel Cyngor Sir Ddinbych ac yn llunio Crynodeb Archwilio Blynyddol o'u darganfyddiadau cyffredinol. I weld adroddiadau diweddar, ewch i wefan Archwilio Cymru .

### Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Prif reoleiddiwr gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru. Gellir gweld adroddiadau diweddar yn adolygu gwasanaethau cymdeithasol plant ac oedolion ar eu gwefan.

### Estyn

Fel arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru, mae Estyn yn llunio adroddiadau arolygu rheolaidd, a gellir eu gweld ar eu gwefan.

# Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

## Templed Mesuryddion

Mae'r canlynol yn ganllaw defnyddiol er mwyn diffinio dangosyddion a mesuryddion perfformiad. Bydd defnyddio hwn yn sicrhau bod data'n cael ei gasglu mewn ffordd gyson o un flwyddyn i'r llall. Os ydych angen unrhyw gyngor ar yr hyn sy'n ddangosydd neu fesur perfformiad da, cysylltwch â'r Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad. Gellir cadw'r wybodaeth hon ar Verto.

### Maes

Mae hyn yn nodi i ba ganlyniad y mae'r mesur hwn yn perthyn. Os nad yw'n perthyn i ganlyniad, defnyddiwch ddisgrifiad priodol.

### Cyfeirnod

Dyma rif adnabod y dangosydd.

### Teitl

Geiriad y mesur ei hun.

### Canllawiau

Canllawiau manwl yn cynnwys: egluro diffiniadau, gwybodaeth ynglŷn â beth i'w gynnwys neu beidio ei gynnwys wrth gasglu data ar gyfer y dangosydd, ayyb.

### Cyfrifiad

Dyma'r eitemau data sydd angen eu casglu er mwyn cyfrifo'r dangosydd ynghyd â'r fformiwla i'w ddefnyddio wrth wneud hynny.

### Ffynhonnell y data

Croes gyfeirio at achosion eraill o'r data hwn, er enghraifft, StatsCymru, WasteDataFlow, PARIS, ayyb.

# Gwella gwasanaethau i'n cymunedau

## Amlder

Nodi amlder casglu'r data ar gyfer y mesur.

## Trothwy Rhagoriaeth

Y trothwy rhagoriaeth a nodir yn ôl y fethodoleg gorfforaethol.

## Ymyrraeth

Y lefelau ymyrraeth a nodwyd ynglŷn â'r trothwy rhagoriaeth yn ôl y fethodoleg gorfforaethol.